Ar drywydd llythrennedd Llafaredd		Map llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD)	Camau nesaf A	Camau nesaf B	Camau nesaf C
Elfennau	**Agweddau**	**Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau ADD.**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	**Siarad** **Gwrando**	• Cyfleu 'mwy'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol *[ADD 28]* • Rhannu sylw *[ADD 40]*	• rhagweld brawddeg sy'n ailadrodd mewn stori gyfarwydd iawn, gan leisio'r gair neu'r sain olaf ar adegau • dangos eu bod yn deall iaith lafar (ond yn dibynnu'n helaeth ar gliwiau gweledol ac ar gliwiau eraill o fewn y cyd-destun uniongyrchol) • dangos eu bod yn deall ychydig o eiriau/arwyddion am wrthrychau neu bobl gyfarwydd • defnyddio ychydig iawn o eiriau/arwyddion neu symbolau cyfarwydd • defnyddio cyfuniad o ystumiau a dulliau mwy ffurfiol o gyfathrebu (arwyddion/iaith lafar) er mwyn cael sylw, i ddweud 'na' ac i fodloni eu hanghenion	• lleisio neu pwyso swits i chwarae 'rhan' sydd wedi'i recordio, pan ddaw eu tro mewn 'drama'/cyflwyniad ailadroddus • cyfathrebu'n bennaf ynghylch gwrthrychau, pobl neu luniau sy'n bresennol ar y pryd, ond hefyd yn cyfeirio at y ffaith eu bod yn absennol • dangos eu bod yn deall hyd at 50 o eiriau/arwyddion/symbolau; defnyddio is-gyfres o'r rhain mewn cyd-destunau pendant yn bennaf • defnyddio geiriau/arwyddion/symbolau unigol a rhai brawddegau dwy ran, *e.e. i ddweud eu bod am ailadrodd rhywbeth neu am i rywbeth ddigwydd eto ('bisged eto')*	• ceisio cyfleu pethau/anifeiliaid mewn sefyllfa gyfarwydd • ceisio arddangos emosiynau syml, gydag ysgogiad • cyfathrebu ynghylch storïau cyfarwydd a chwarae symbolaidd, yn ogystal â phobl, lleoedd a digwyddiadau o'u profiad ehangach • deall a defnyddio 50 neu fwy o eiriau/arwyddion/symbolau • defnyddio brawddegau dau a thri gair yn rheolaidd er mwyn cyfleu diddordebau, gwneud sylwadau, rhannu gwybodaeth a gofyn cwestiynau • dweud/dangos i eraill yr hyn fydd yn digwydd nesaf gyda rhywfaint o gefnogaeth, ac yn gallu rhoi adroddiad syml o'r hyn sydd newydd ddigwydd
	Cydweithio a thrafod	• Cychwyn gêm gymdeithasol *[ADD 33]* • Newid ymddygiad wrth ymateb i ddigwyddiad diddorol gerllaw *[ADD 25]* • Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau *[ADD 36]* • Rhannu sylw *[ADD 40]* • Cyfleu eu dewis i oedolyn sylwgar *[ADD 37]*	• cymryd eu tro mewn sefyllfa lle bydd grŵp yn cymryd tro • copïo gweithredoedd mewn gemau gweithred syml (*e.e. Mae Seimon yn dweud* . . .), rhoi cynnig ar weithred o ryw fath wrth i'r oedolyn ddefnyddio geiriau yn unig • pwyntio/cyfeirio'r llygaid mewn ymateb i 'ble mae'r . . . ' ar gyfer amrywiaeth o bobl a gwrthrychau cyfarwydd • defnyddio ystum(iau)/gair(geiriau) ychwanegol i gadarnhau'r ystyr pan na ddeallwyd yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu • pwyntio/lleisio i dynnu sylw rhywun arall at ddigwyddiad neu wrthrych diddorol gerllaw • pwyntio at eitem a ddymunir (sy'n weladwy ond y tu hwnt i'w gyrraedd), gan leisio • rhoi symbol/llun i gynrychioli eitem a ddymunir (nid yw'n gwahaniaethu rhwng yr eitem ei hun a'r hyn sy'n ei chynrychioli).	• gwrando/gwylio am ysgogiad mai 'eu tro nhw' yw hi, pan na cheir trefn syml o gymryd tro mewn cylch • gwrando ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a wneir gydag ystumiau (*e.e. 'dos/cer i nôl dy gôt'*) • ymateb yn briodol i geisiadau syml lle mae'n rhaid newid lleoliad gwrthrychau neu eu trosglwyddo i bobl • ailadrodd/copïo geiriau ac yn efelychu patrymau siarad/goslef • defnyddio geiriau/arwyddion unigol a nifer cynyddol o frawddegau byr (*e.e.'wedi gorffen', 'ga i ddiod'*) yn bennaf er mwyn mynegi eu dymuniadau neu eu hanghenion eu hunain • rhoi symbol/llun er mwyn cael eitem gyfatebol a ddymunir.	• cychwyn 'sgwrs' ac yn ailadrodd geiriau neu frawddegau os nad yw'n eu deall • gwrando ac ymateb i eraill mewn cyd-destunau cyfarwydd, gan ofyn cwestiynau er mwyn cael gwybodaeth syml/fanwl • ymateb yn briodol i geisiadau syml sy'n cynnwys priodoleddau (*e.e. mawr, budr*), rhagenwau meddiannol (*e.e. fy, dy*) ac arddodiaid (*e.e. yn, ar, o dan*) • gofyn am ragor o wybodaeth o fewn gweithgaredd strwythuredig ac yn ei chynnwys mewn ymateb newydd • defnyddio geiriau/arwyddion a brawddegau i amrywiaeth o ddibenion • canfod symbol/llun o eitem a ddymunir ac yn ei ychwanegu at frawddeg barod.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

Ar drywydd llythrennedd Darllen er gwybodaeth		Map llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD)	Camau nesaf A	Camau nesaf B	Camau nesaf C
Elfennau	**Agweddau**	**Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau ADD.**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**
Canfod, dewis a defnyddio gwybodaeth	**Strategaethau darllen**	• Gweithredu'n fwriadol ar amgylchedd pob dydd *[ADD 24]* • Rhannu sylw *[ADD 40]*	• chwilio am eitemau 'cynrychioliadol', *e.e. lluniau, ffotograffau, llyfrau cyffyrddol/codi dalen, ac ati* • dangos sylw cynyddol i rai llyfr(au), gan roi llyfrau eraill i'r naill ochr • dangos diddordeb wrth i oedolyn ddarllen stori, edrych ar y llyfr, yn ei gyffwrdd a'i drin a'i drafod ar brydiau	• dal llyfr neu'n ei droi ar i fyny • pwyntio at lun o gymeriad mewn stori gyfarwydd • paru unigolyn cyfarwydd â ffotograff clir o'r unigolyn hwnnw • canfod eu henw eu hunain mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn yr ystafell ddosbarth • cyflwyno'u hoff lyfr i oedolyn er mwyn i'r oedolyn ddarllen y llyfr iddynt	• trin a thrafod llyfr, gan droi'r tudalennau o'r blaen i'r cefn yn bennaf, ac edrych arnynt â diddordeb • edrych ar y dudalen chwith mewn llyfr cyn edrych ar y dudalen dde • 'darllen' llinell amser o ddarluniau neu symbolau ac yn dweud beth fydd yn digwydd • canfod eitem a ddymunir drwy sganio/archwilio labeli • dilyn cyfarwyddiadau un/dau gam syml sydd wedi'u 'hysgrifennu' ar ffurf lluniau neu symbolau • paru geiriau cyfarwydd iawn ac yn adnabod ychydig o lythrennau penodol (*e.e. llythrennau o'u henw eu hunain*)
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	**Dealltwriaeth**	• Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, eu bod yn well ganddynt eitemau nad ydynt yn bresennol *[ADD 41]*	• gwrando gyda diddordeb ar synnau a recordwyd ar swits 'cam wrth gam', neu ar stori lafar ar gyfrifiadur; defnyddio swits neu sgrin cyffwrdd i ailadrodd synnau ac i symud ymlaen â'r stori • lleisio mewn ymateb i ran arbennig o stori gyfarwydd	• creu sŵn neu iaith lafar sy'n cyfateb â llun mewn stori gyfarwydd (*e.e. dewis swits (o blith dau) a'i bwyso i chwarae'r sŵn priodol*) • defnyddio geiriau (llafar) neu'n dewis gwrthrych neu symbol i 'ddisgrifio' nodwedd a ddarlunnir mewn llyfr stori • paru eitemau mewn sach stori â chymeriadau, lleoedd neu ddigwyddiadau mewn stori gyfarwydd iawn	• defnyddio lluniau i roi digwyddiadau allweddol (tri ohonynt) yn eu trefn mewn stori gyfarwydd • cyfeirio at, neu'n gwneud sylwadau ynghylch print yn yr amgylchedd (*e.e. labeli, rhybuddion*) • cynnig rhywfaint o wybodaeth am stori gyfarwydd
	Ymateb a dadansoddi	• Rhannu sylw *[ADD 40]* • Cyfleu 'mwy'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol *[ADD 28]*	• rhagweld patrwm sy'n ailadrodd mewn stori • dangos ymateb penodol i agwedd synhwyraidd ar stori adnabyddus (*e.e. chwerthin a chyffro mewn golygfa frwydr, anesmwythder wrth glywed cerddoriaeth iasol*).	• edrych ar un neu ddau o'u hoff lyfrau lluniau cyfarwydd (neu gyfrwng synhwyraidd cyfatebol) gydag oedolyn, gan roi sylw i agweddau penodol y bydd yr oedolyn yn cyfeirio atynt yn y llun • *efelychu* (*e.e. copïo mynegiant wyneb*) neu *dangos empathi* (*e.e. o!*) wrth ymateb i rywbeth penodol sy'n digwydd i gymeriad mewn stori gyfarwydd • dangos pleser pan fydd oedolyn yn dechrau darllen un o'u hoff storïau, yn ymateb ar adegau.	• edrych ar destun gyda/heb oedolyn, gan ddangos diddordeb neu fwynhad • mynegi mewn rhyw fodd neu'i gilydd, o'u hysgogi, eu hagwedd bersonol tuag at stori neu ddiddordeb mewn stori sydd newydd gael ei darllen (*e.e. hoffi/ddim yn hoffi, adalw digwyddiad penodol, ac ati*).

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

Ar drywydd llythrennedd Ysgrifennu er gwybodaeth		Map llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD)	Camau nesaf A	Camau nesaf B	Camau nesaf C
Elfennau	**Agweddau**	**Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau ADD.**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**
Trefnu syniadau a gwybodaeth	**Ystyr** • **diben** • **cynulleidfa** • **syniadau a gwybodaeth** • **defnyddio manylion**	• Rhannu sylw *[ADD 40]*	• ymateb (drwy edrych ar/cydnabod eu 'llun') pan fydd oedolyn yn siarad am yr hyn y mae wedi'i wneud	• dechrau rhannu eu 'llun' wrth ryngweithio â'r oedolyn • dewis symbol neu lun unigol i ddisgrifio rhywbeth sydd newydd ddigwydd	• dweud rhywbeth am eu llun neu newyddion y gall oedolyn ei ysgrifennu • dewis dau neu fwy o symbolau mewn dilyniant i gyfleu 'beth ddigwyddodd gyntaf . . . ac wedyn' a'u defnyddio i rannu gwybodaeth ag oedolyn • pwyntio at 'ysgrifen' a 'llun' mewn llyfr ar gais
	Ffurf **Mathau o destun** • **nodweddion angenrheidiol** • **dechrau** • **dilyniant** • **geiriau cysylltu** • **nodweddion gweledol**	• Cyflawni dwy weithred wahanol yn eu trefn i gael gwobr *[ADD 35]*	• dyfalbarhau i wneud marciau er mwyn cynhyrchu canlyniad (sy'n ymddangos fel pe bai ar hap)	• sgriblo i gynhyrchu eu 'llun' eu hunain ac yn dechrau priodoli ystyr iddo	• dangos diddordeb pan fydd oedolyn yn ysgrifennu eu newyddion/stori neu'n darllen eu newyddion yn ôl; cadarnhau mai dyna'r hyn y maent am ei ddweud • cynnwys rhai siapiau tebyg i lythrennau, neu ffurfiau tebyg i eiriau (gyda bylchau rhyngddynt) wrth dynnu llun • defnyddio marc(iau) i labelu eu gwaith eu hunain
	TGCh	• Ymwybyddiaeth o ddibyniaeth *[ADD 26]*	• cyffwrdd llun neu symbol er mwyn cael gwobr weledol neu glywedol ar y cyfrifiadur neu ar gyfrifiadur tabled (yn canolbwyntio ar lun fel 'targed' ond mae'n bosib na fydd yn gwahaniaethu rhwng yr hyn a gynrychiolir gan wahanol luniau)	• dewis llun neu symbol (o blith dau neu fwy) i gyfleu neges mewn meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu ar gyfrifiadur tabled	• dewis lluniau neu symbolau i gyfansoddi brawddeg fer wrth ddefnyddio meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu ar gyfrifiadur tabled
Ysgrifennu'n gywir	**Iaith**				
	Cyflwyniad **Ysgrifennu â llaw**	• Gweithredu'n fwriadol ar amgylchedd pob dydd *[ADD 24]* • Gwneud marciau dros arwynebedd mawr (*e.e. yn symud y fraich gyfan*) *[ddim ar fap llwybrau ADD ond yn berthnasol]*	• arbrofi drwy wneud marciau gan ddefnyddio rhannau'r corff (*e.e. y traed a'r dwylo*) • gafael mewn eitemau ac yn dechrau defnyddio'r bysedd i wneud marciau, *e.e. mewn tywod gwlyb, ewyn, ac ati,* gan symud ymlaen i sgriblo ar bapur • 'lleoli'r' sgriblo o fewn gofod diffiniedig (o fewn terfynau'r dudalen neu ar ran neilltuol o'r dudalen) gan ddangos rheolaeth weledol gynyddol.	• defnyddio'r llaw a ffafrir yn fwy cyson wrth wneud marciau, ac weithiau'n defnyddio offeryn (wedi'i addasu) • cau rhai llinellau wrth sgriblo (gan greu ffurfiau sy'n ymddangos fel siapiau).	• rhoi cynnig ar amrywiaeth o offer i wneud marciau a siapiau ar bapur neu ar ddeunydd arall priodol • tynnu rhai lluniau cynrychioliadol (*e.e. person neu anifail*) • ceisio dargopïo siapiau a llythrennau mawr • ysgrifennu rhai llythrennau yn eu henw eu hunain (gall eu ffurf fod yn anghonfensiynol).

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012